# Beth sy'n Dda ym Marn Cyn-filwyr Benywaidd

Female Veterans TRANSFORMATION PROGRAMME

## Rhestr wirio ar gyfer gwasanaethau a sefydliadau

Rydym wedi clywed gan dros 800 o gyn-filwyr benywaidd ac maent wedi dweud wrthym eu bod yn ystyried y canlynol yn dda...

Deall anghenion yr **HOLL** gyn-filwyr benywaidd a sicrhau eu bod yn gallu **'eu gweld eu hunain'** yn y gwasanaethau a ddarperir.

### CYDNABYDDIAETH

- Rydym yn ymwybodol ac yn cydnabod bod menywod yn gwasanaethu/wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain
- Rydym yn gofyn y cwestiwn 'Ydych chi erioed wedi gwasanaethu?'


Bydd hyn yn helpu i ganfod cyn-filwyr benywaidd a chychwyn sgwrs sy'n benodol i'w hanghenion nhw.

**Mae angen hefyd i BAWB ddeall bod menywod wedi gwasanaethu hefyd a lleihau stereoteipiau.**

**Mae llawer o bobl yn anymwybodol o hyd bod menywod wedi gwasanaethu ym mhob rôl yn y lluoedd arfog ac felly mae tybiaethau a stereoteipiau'n bodoli o hyd sy'n atal menywod rhag gofyn am gymorth neu rhag cael cynnig gymorth.**

### AMRYWIAETH

- Rydym yn ymwybodol y gallai fod gan gyn-filwyr benywaidd anghenion sy'n wahanol i rai dynion
- Rydym yn cydnabod bod cyn-filwyr benywaidd yn grŵp amrywiol ac mae'n cynnwys:
  - Pob **oedran**
  - Pob **rheng**
  - Pob **hyd gwasanaeth**
  - **Lleiafrifoedd ethnig**
  - Cyn-filwyr **LHDTC+**




o'r ymatebwyr wedi dweud **bod ganddynt anabledd**

Gall anghenion cyn-filwyr benywaidd gynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, materion sy'n ymwneud â bwlio, gwahaniaethu, aflonyddu ac ymddygiad rhywiol amhriodol yn cynnwys treisio ac ymosod yn rhywiol, tai, cyflogaeth a chyllid, cyfrifoldebau gofalu ac ati. Yn aml bydd mwy nag un angen yn bresennol ar adeg benodol ac mae angen sicrhau bod cymorth yn holistaidd

### YMWYBYDDIAETH A CHYFATHREBU

- Rydym yn sicrhau ein bod yn hybu ein gwasanaethau i gyn-filwyr benywaidd mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo bod croeso iddynt
- Rydym yn sicrhau bod brandio, delweddau ac iaith yn briodol i gyn-filwyr benywaidd



Nid yw llawer o fenywod yn gwybod beth sydd ar gael ac maent yn teimlo nad ydynt yn cael/eisiau ei gyrchu.

### CYMORTH

- Rydym yn cynnig cymorth mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person, ar sail yr hyn sy'n bwysig i'r person hwnnw
- Rydym yn cydweithio gyda gwasanaethau/sefydliadau eraill i ddarparu'r cymorth cywir i'r person (Does dim rhaid i ni wybod/gwneud popeth ar ein pen ein hun!!)

**Mae rhai menywod eisiau cyrchu'r gwasanaethau presennol ar y cyd â dynion ond maen nhw eisiau teimlo bod hwn yn ddewis go iawn (dydyn nhw ddim yn teimlo y gallant wneud hyn bob amser)**

**Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth ehangach bod gwasanaethau i fenywod yn unig yn hanfodol ar gyfer rhai materion a rhai menywod.**

(h.y. ar gyfer y rhai hynny sydd wedi profi ymddygiadau rhywiol amhriodol, yn cynnwys treisio ac ymosod yn rhywiol.)

### AMGYLCHEDD

- Rydym yn darparu ein gwasanaethau i gyn-filwyr benywaidd mewn amgylcheddau diogel a phriodol




**Gwell mynediad at wasanaethau ar draws y DU gyfan**

**Ar-lein** ac **wyneb yn wyneb**

Lle bo'n briodol dylai'r rhain gynnwys gofal plant/amgylcheddau sy'n gyfeillgar i blant.

### AR-LEIN

- Rydym yn darparu mynediad at hyfforddiant ychwanegol i staff lle mae ei angen er mwyn gwella'r cymorth i gyn-filwyr benywaidd



**Mae rhai gwasanaethau yn cyfaddef nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth o hyd**

Mae hyn hefyd yn cynnwys deall pam ddylech ofyn: **'Ydych chi wedi gwasanaethu erioed?'** a gwybod beth i'w wneud â'r wybodaeth honno.

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.fvtp.org.uk**